

## Cofion a Chydymdeimlad

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Margaret Jones (Llansannan) a'r teulu cyfan yn dilyn marwolaeth ei brawd, y Parch. John Owen, un a godwyd yn ymgeisydd i'r weinidogaeth o'r eglwys yn Llansannan, ac a fu'n gweinidogaethu am flynyddoedd lawer gyda'r Presbyteriaid, yn arbennig ym Methesda. Cyflwynwn y teulu oll i ofal a thangnefedd yr Arglwydd. Cofiw'n am eraill o'r Ofalaeth sydd hefyd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnos ddiwethaf, a chyflwynwn hwythau yn dyner i ofal Duw. Gweddïwn y bydd pawb sy'n galaru am anwyliaid yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.

Anfonwn ein cofion at Meirion Evans (Henllan) a Ceinlys M. Jones (Llansannan) sy'n cael gofal yn yr Inffirmari. Cyflwynwn y ddau i ofal yr Arglwydd gan ofyn Iddo gysgodi drostynt a gwyllo dros eu hanwyliaid yr un modd. Treuliodd Lewys Jones (Cefn Meiriadog) rai dyddiau yn yr ysbyty yr wythnos ddiwethaf hefyd. Diolchwn i Dduw amdano yntau a gobeithiwn ei fod bellach yn cryfhau ac yn gwella.

## Canu Carolau

Rydan ni'n gobeithio medru trefnu i fynd i ganu carolau i rai o'r cartrefi gofal eto eleni. Os oes gennych ddi-ddordeb, wnewch chi gysylltu hefo Mair **erbyn dydd Sul, Rhagfyr 1af**, os gwelwch yn dda? Byddai'n dda gwybod pwy sydd ar gael a phryd (boed hynny yn ystod y dydd a/neu fin nos) cyn i ni wneud trefniadau pendant, ac wedyn gallwn hefyd drefnu noson i ymarfer.



## I ddod

- **GWASANAETH CAROLAU BRO ALED** yng Nghapel Cefn Meiriadog nos Sul, Rhagfyr 15fed am 6.00.
- **'AWN I FETHLEHEM'** – Gwasanaeth Carolau Cymdeithas Llansannan yn Eglwys Sant Sannan nos Lun, Rhagfyr 16eg am 7.30. Gwneir casgliad tuag at Hosbis San Cyndeyrn.
- **PLYGAIN** yng Nghapel Bethania, Llansannan am 7.00 bore dydd Nadolig.
- **OEDFA BORE NADOLIG I'R FRO** – oedfa deulu yng Nghapel Cefn Berain am 9.30.
- **TAITH GERDDED HAMDDENOL I'R FRO** dydd Gwener, Rhagfyr 27ain. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **OEDFA I'R FRO** – Cynhelir oedfa i'r fro yng Nghapel Saron bore Sul, Rhagfyr 29ain am 10.30.



## Llais Bro Aled

Tachwedd 24<sup>ain</sup> a Rhagfyr 1<sup>af</sup>, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:  
@eglwysibroaled

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso cynnes i bawb ohonoch i'n hoedfaon ar Sul olaf mis Tachwedd. Os nad ydych yn barod, dwi'n siŵr y bydd nifer ohonom ym mhen dim yng nghanol prysurdeb paratodau Nadoligaidd! Wrth i ni edrych ymlaen at y dathliadau hyn gofynnwn ar i'r Arglwydd yn ei ras ein helpu i'w foli wrth feddwl am ryfeddod mwya'r nef -

*'gweld yr anfeidrol, ddwyfol Fod  
yn gwisgo natur dyn.'*

Un o'r adnodau sydd wedi gwneud i mi feddwl llawer dros y blynyddoedd yw'r un pan mae Paul yn dyfynnu geiriau Iesu yn Actau 20:35 'Dedwyddach yw rhoi na derbyn.' Yn ôl un esboniwr, nid ymgais i wneud i Gristnogion deimlo'n euog am dderbyn gan bobl eraill oedd y geiriau hyn, ond gair i'w hatgoffa bod rhoi o'n digonedd yn llawer gwell na phentyrru arian a meddiannau i ni'n hunain. A dweud y gwir, adlais cryf sydd yma o ddysgeidiaeth Iesu bod rhoi i rai na all dalu'n ôl yn arwydd o gariad Cristnogol ymarferol. Dyma un ffordd y gall y Cristion ymateb i orchymyn Iesu: 'byddwch yn drugarog fel y mae eich Tad yn drugarog.' (Luc 6:36)

Yn sgil hyn rwyf am dynnu eich sylw at gyfle sydd wedi codi yn ddiweddar i ni gyfrannu at elusen arbennig sydd wedi sefydlu cangen yn Nyffryn Clwyd – yng Nghapel Mawr, Dinbych. Yn wreiddiol, eglwys yn Sheffield a gychwynnodd *Baby Basics* yn 2009, gyda'r bwriad o ddarparu pecynnau o ddeunyddiau angenrheidiol ar gyfer babanod newydd eu geni. Mae'r elusen yn gweithio gyda bydragedd, ymwelwyr iechyd a chyrrff proffesiynol eraill i ddarparu'r adnoddau allweddol i rieni a theuluoedd mewn angen.

Felly os ydych â diddordeb, mae'r elusen yn gweithio'n debyg i egwyddor y Banc Bwyd lle gallwch gyfrannu faint bynnag o'r amrywiol adnoddau y maent yn gofyn amdano, bydd y cyfan yn cael ei gadw'n ddiogel yn y Capel Mawr cyn i'r deunyddiau gael eu rhannu â'r rhai mewn angen yn ôl arweiniad yr arbenigwyr proffesiynol. Byddwn yn cynnwys rhestr ac awgrymiadau o gyfraniadau ar ffurf Calendr Adfent gyda'r rhifyn hwn o Llais Bro Aled ynghyd â phoster i'w osod yn y capel.

Â ninnau'n agosáu at ddathlu genedigaeth ein Gwardwr mewn amodau digon anffafriol, diolchwn am barodrwydd Mab Duw i ddod nid 'i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer.' (Marc 10:45) Ac wrth ddiolch yn arbennig am yr elusen *Baby Basics*, gweddïwn am fendith Duw ar y gwirfoddolwyr sydd ar waith, ac wrth gwrs y rhai fydd yn derbyn cymorth ganddynt.

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

**Sul yma – 24<sup>ain</sup>**

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd y Parch. Hywel Meredydd yn pregethu.
- **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
- **Cynhadledd Undydd Dydd Gweddi'r Byd** yn Ffestri Capel Seion, Llanrwst o 10.00 – 1.00.

Gwener – Sul  
29<sup>ain</sup> – 1<sup>af</sup>

- **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **Arfogi** – penwythnos i annog ac arfogi myfyrwyr ac oedolion ifanc yn eu 20au a 30au. Medrwyd archebu lle ar y wefan: [colegybala.org](http://colegybala.org). Cofiwch bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig £10 o ostyngiad i bob unigolyn fydd yn mynd draw yno.

**Sul nesaf – 1<sup>af</sup>**

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.

Mawrth – 3<sup>ydd</sup>

- **Cyfarfod Blaenoriaid a Diaconiaid Gofalaeth Bro Aled** yn Llanefydd am 7.30.

Mercher – 4<sup>ydd</sup>  
lau – 5<sup>ed</sup>

- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint** yn cyfarfod yn Llansannan am 7.00. Ar ôl delio â'r materion gwaith, bydd Rhodri Glyn (Llywydd y Cwrdd Chwarter) yn annerch ac yn ein harwain at Fwrdd y Cymun.

Gwener – 6<sup>ed</sup>

- **C.I.C.** ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30-9.00.

**Sul canlynol – 8<sup>fed</sup>**

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion Dafydd, a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

**Sul yma – 24<sup>ain</sup>**

- Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu yn Henllan am 9.30 a bydd Ysgol Sul yn Groes am 10.45.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu ac yn gweinyddu'r cymun yn Llanefydd am 11.00.

**Sul nesaf – 1<sup>af</sup>**

- Bydd Aneurin yn arwain Oedfa i'r Daith (Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes) yng Nghefn Berain **am 11.00** (sylwch ar y newid) gyda'r Ysgolion Sul yn Henllan, Groes a Llanefydd yn cyfarfod am 10.00, a'r Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain.

**Sul canlynol – 8<sup>fed</sup>**

- Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Llanefydd am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00 a bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Henllan am 11.00.

### Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

**Sul yma – 24<sup>ain</sup>**

- Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 10.30.

Mercher – 27<sup>ain</sup>

- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Llanfair am 11.00.
- Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (24<sup>ain</sup>)**, os gwelwch yn dda.

**Sul nesaf – 1<sup>af</sup>**

- Bydd Mr Steffan Job yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn yr oedfa.

Mawrth – 3<sup>ydd</sup>

- Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00 a bydd Mr Steffan Job yn arwain oedfa am 11.00 gydag Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.

Mercher – 4<sup>ydd</sup>

- Paned a Sgwrs – Cinio Nadolig. Am fwy o fanylion, cysylltwch â Hafwen neu Sian (870230). Croeso cynnes i bawb.

Sadwrn – 7<sup>fed</sup>

- Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (1<sup>af</sup>)**, os gwelwch yn dda.

- Brynsh Bethlehem: Diwrnod o hwyl yn cynnwys cinio, gweithgareddau a ffilm yn edrych ar y stori orau erioed! 10.30-2.30 yn festri Capel Coffa Henry Rees, Llansannan. I archebu lle neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Rhodri neu Gwenno Glyn.

**Sul canlynol – 8<sup>fed</sup>**

- Bydd Rhodri yn arwain oedfa Sul y Beibl yn Llansannan am 9.30 gydag Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Gwneir casgliad tuag at Gymdeithas y Beibl. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 10.30.
- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Llanfair am 11.00.

### Peniel, Saron a Nantglyn

**Sul yma – 24<sup>ain</sup>**

- Bydd Mr Gwydion Lewis yn arwain oedfa i'r daith (Peniel, Saron a Nantglyn) yn Nantglyn am 2.00.

**Sul nesaf – 1<sup>af</sup>**

- Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Saron am 10.00.

**Sul canlynol – 8<sup>fed</sup>**

- Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.
- Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (4<sup>ydd</sup>), os gwelwch yn dda.